
Radio Cymunedol

Galw am 'ddatganiadau o ddiddordeb' mewn gwneud
cais am drwyddedau radio cymunedol

YMGYNGHORIAD:

Dyddiad Cyhoeddi: 8 Tachwedd 2017

Dyddiad Cau ar gyfer Ymateb: 6 Rhagfyr 2017

Gair am y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn gwahodd 'datganiadau o ddiddordeb' gan bobl a grwpiau sy'n awyddus i wneud cais am drwydded radio cymunedol. Bydd y 'datganiadau o ddiddordeb' hyn yn sail i wahoddiad pellach i wneud cais am drwyddedau radio cymunedol.

Y dyddiad cau ar gyfer 'datganiadau o ddiddordeb' yw 5pm ddydd Mercher, 6 Rhagfyr 2017.

1. 'Datganiadau o ddiddordeb' ar gyfer radio cymunedol

- 1.1 Ym mis Ebrill eleni, fe wnaethom gyhoeddi casgliad ein hymgyngoriad a gynhaliwyd ym mis Hydref 2016, 'Radio cymunedol: polisi trwyddedu a thechnegol i'r dyfodol'. Yn y datganiad hwn, fe wnaethom egluro ein bwriad i gynnig pedwerydd cylch ar gyfer trwyddedu radio cymunedol, gan wahodd ceisiadau gan ardaloedd yr oeddem wedi cael 'datganiad o ddiddordeb' ar eu cyfer rhwng 22 Hydref a 22 Rhagfyr 2016. Roeddem hefyd wedi egluro ein bod yn bwriadu cwblhau'r cylch hwn o drwyddedu cyn i ni ddechrau trwyddedu amblecsau DAB graddfa fach o dan fframwaith newydd sy'n cael ei sefydlu gan yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon ar hyn o bryd.
- 1.2 Ers cyhoeddi'r datganiad hwnnw, rydym wedi clywed gan amryw o ymgeiswyr posib ar gyfer radio cymunedol nad oeddent, am amrywiaeth o resymau, yn gallu gwneud cais am drwydded radio cymunedol yn y cylch presennol. Hefyd, rydym yn rhagweld y bydd gennym amser i gwblhau cylch arall o drwyddedu cyn y bydd y fframwaith trwyddedu ar gyfer amblecsau DAB graddfa fach yn barod i ni ei roi ar waith.
- 1.3 Felly rydym ni o'r farn ei bod yn briodol cynnig y cyfle hwn i nifer cyfyngedig o geisiadau eraill gael eu hystyried ar gyfer trwydded radio cymunedol fel rhan o'r pedwerydd cylch trwyddedu. Er mwyn cynllunio'r gwaith hwn yn effeithiol, rydym yn gwahodd 'datganiadau o ddiddordeb' ar gyfer ardaloedd yn y DU y byddai ymgeiswyr posib am gyflwyno cais ar eu cyfer.
- 1.4 Ddechrau 2018, rydym yn bwriadu cyhoeddi gwahoddiad arall i wneud cais am drwyddedau radio cymunedol, ar FM yn unig. Dim ond yr ardaloedd rydym wedi cael datganiadau o ddiddordeb ar eu cyfer mewn ymateb i'r cyhoeddiad hwn fydd yn cael y gwahoddiad hwnnw. Felly mae'n **RHAID** i ymgeiswyr posib sy'n awyddus i wneud cais am drwydded gyflwyno 'datganiad o ddiddordeb' mewn ymateb i'r cyhoeddiad hwn – ar gyfer yr ardal maent yn bwriadu gwneud cais i ddarlledu iddi – er mwyn i ni ystyried cynnwys yr ardal honno pan fyddwn yn gwahodd ceisiadau am drwydded.
- 1.5 Cofiwch na fydd cyflwyno 'datganiad o ddiddordeb' mewn ymateb i'r cyhoeddiad hwn yn golygu eich bod wedi gwneud cais am drwydded. I wneud cais am drwydded, bydd angen i ymgeiswyr lenwi a chyflwyno ffurflen gais ynghyd â'r ffioedd a'r dogfennau ategol gofynnol mewn ymateb i'r gwahoddiad i wneud cais, os bydd eu hardal wedi'i chynnwys yn y broses.
- 1.6 Os byddwn yn cael nifer fawr o ddatganiadau o ddiddordeb, mae'n bosib y bydd angen i ni gyfyngu ar nifer yr ardaloedd a fydd yn gallu cyflwyno ceisiadau i ni. Mewn geiriau eraill, mae'n bosib na fyddwn yn gallu gwahodd ceisiadau ar gyfer pob ardal rydym wedi cael datganiad o ddiddordeb ar ei chyfer.
- 1.7 Yn yr achos hwn, byddwn yn blaenoriaethu'r ardaloedd fel hyn:
 - a) ardaloedd sydd ddim yn cael eu gwasanaethu gan wasanaethau radio cymunedol ar hyn o bryd, ac ardaloedd nad ydym wedi cael unrhyw geisiadau ar eu cyfer yn ystod ein

cylich trwyddedu presennol er ein bod wedi gwahodd ceisiadau (cliciwch [yma](#) – o dan y gwymprestr ‘apply for a community radio licence’ – i weld rhestrau o’r ceisiadau a gafwyd yn ystod 2017);

- b) ardaloedd sydd ddim yn dod o dan bwynt a) ac rydym ni o’r farn ei bod yn rhesymol meddwl y bydd amleddau FM addas yn debygol o fod ar gael yn yr ardaloedd hynny;
- c) unrhyw ardaloedd eraill.

1.8 Mae’r ymgeiswyr posib yn gyfrifol am sicrhau bod ganddynt y wybodaeth ddiweddaraf. Rydym yn argymhell yn gryf bod unrhyw un sy’n cyflwyno datganiad o ddiddordeb, ac sy’n awyddus i wneud cais am drwydded, yn cofrestru i gael ‘diweddariadau darlledu’ Ofcom [yma](#). Ni fyddwn yn ysgrifennu at neb sy’n cyflwyno ‘datganiad o ddiddordeb’ i roi rhagor o wybodaeth.

Y wybodaeth sydd ei hangen

1.9 Dylid cynnwys y wybodaeth ganlynol mewn ‘datganiad o ddiddordeb’:

- enw’r sefydliad a’i fanylion cyswllt;
- yr ardal y mae’r grŵp yn dymuno darlledu iddi;
- disgrifiad byr o’r gymuned y mae’n dymuno ei gwasanaethu; ac
- y lleoliad a gynigir ar gyfer y trosglwyddydd.

1.10 Ni fydd cyflwyno ‘datganiad o ddiddordeb’ yn rhan o unrhyw gynllun trwyddedu a ddaw ar ôl hynny, ac ni fydd yn cael ei ystyried yn addewid sy’n rhwymo’r awdur i wneud cais am drwydded. Yn yr un modd, nid dim ond y rheini sydd wedi cyflwyno ‘datganiad o ddiddordeb’ yn barod fydd yn cael gwahoddiad i wneud cais am drwydded radio cymunedol, ond bydd hyn wedi’i gyfyngu i’r ardaloedd rydym wedi cael ‘datganiad o ddiddordeb’ ar eu cyfer (yn amodol ar unrhyw broses flaenoriaethu ofynnol, fel y nodir ym mharagraff 1.7).

Sut i ymateb i’r cyhoeddiad hwn

1.11 Anfonwch eich ‘datganiad o ddiddordeb’ drwy e-bost neu e-lythyr i community.radio@ofcom.org.uk neu drwy’r post i:

Broadcast Licensing
Ofcom
Riverside House
2a Southwark Bridge Road
London
SE1 9HA

1.12 Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ‘datganiadau o ddiddordeb’ yw **5pm ddydd Mercher, 6 Rhagfyr 2017**.

1.13 I gael rhagor o wybodaeth am drwyddedu radio cymunedol, ewch i’n gwefan.

- 1.14 Rydym yn argymhell yn gryf bod grwpiau sydd â diddordeb yn cadw golwg ar wefan Ofcom neu'n cofrestru i gael hysbysiadau darlledu er mwyn cael newyddion pellach.